

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

### Cofnodion o Gyfarfod y Fforwm Derbyn a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig ar ddydd Iau 1af Rhagfyr 2016

#### **Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

|                      |   |
|----------------------|---|
| Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor                                    |
| Mrs M Treharne       | Swyddog Cefnogi Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr a Phlant |
| Mrs D Davies         | Prif Swyddog, Rheoli Gwybodaeth a Dysgwyr             |

#### **Cynrychiolwyr Ysgolion**

|              |  |
|--------------|--|
| Mr J Tarran  | Pennaeth, Ysgol Gynradd Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru |
| Mrs A Keller | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archddiacon McGrath             |
| Mrs S Davies | Pennaeth, Ysgol Iau Llangewydd                                       |

#### **Cynrychiolwyr Llywodraethwyr**

|           |                    |
|-----------|--------------------|
| Mr W Bond | Ysgol Heronsbridge |
|-----------|--------------------|

#### **Awdurdod Lleol Arall**

|                   |     |
|-------------------|-----|
| Mrs Claire Kristy | RCT |
|-------------------|-----|

#### **Ysgrifennydd y Fforwm**

Ms M Jones

- 1. Croeso**  
Cytunodd y fforwm i Dawn Davies fod yn gadeirydd dros-dro yn absenoldeb Robin Davies. Croesawodd y cadeirydd dros-dro Mrs S Pilcher a Mr A Slade i'w cyfarfod cyntaf.
- 2. Ymddiheuriadau**  
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mr R Davies, Mr J Tarran a Mrs H Ridout.
- 3. Ethol Cadeirydd**  
Cyflwynwyd gan Aelodau'r Fforwm y dylid penodi Mr R Davies yn Gadeirydd.
- 4. Ethol Is-Gadeirydd**  
Cyflwynwyd gan Aelodau'r Fforwm y dylid penodi Mr J Tarran yn Is-Gadeirydd.
- 5. Cadarnhau Cofnodion 10fed Mawrth 2016**  
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Fawrth 2016 fel cofnod cywir gydag un diwygiad:

Nododd Eitem 7 yn y cofnodion, os yw disgybl Blwyddyn 10 yn symud i Awdurdod Lleol arall ar ôl gwyliau hanner tymor yr Hydref, a bod y disgybl yn dymuno aros yn yr ysgol wreiddiol, yr Awdurdod lle mae'r ysgol wedi'i lleoli sy'n gyfrifol am ysgwyddo'r costau trafndiaeth. Nododd CK fod hynny'n anghywir ac na fyddai'r Awdurdod Lleol yn ariannu'r trafndiaeth ac mai cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad fyddai ariannu'r trafndiaeth. Dim ond o dan amgylchiadau arbennig y byddai trafndiaeth yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod.

#### **6. Materion yn codi o gofnodion 10fed Mawrth 2016**

##### **Eitem 6 Diweddariad ar adolygu dalgylchoedd**

Trafododd MT ddalgylchoedd Ysgol Gynradd Pencoed ac Ysgol Gynradd Croesty. Nododd Gaynor Thomas, Rheolwr Rhaglen Ysgolion fod dalgylchoedd drwyddi draw yn cael eu hadolygu gan yr Awdurdod Lleol. Yn ystod y cyfarfod Adolygu Strategol, trafodwyd y posibilrwydd o'r Awdurdod Lleol yn cyflogi ymgynghorydd preifat. MJ i roi hyn ar yr agenda ar gyfer y fforwm nesaf am ddiweddariad.

### **Eitem 7 Cofnodion Mynediad Teg (FAP)**

Cyflwynodd MT gofnodion y cyfarfod FAP diwethaf a gynhaliwyd ar 23ain Mehefin 2016. Rhoddodd MT ddiweddariad i'r fforwm ynglŷn â'r ffurflen gais 'Derbyn/Trosglwyddo' diwygiedig. Anfonwyd y newidiadau a awgrymwyd at Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol a fynegodd bryder ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig. Drwy'r FAP, cytunwyd i gadw'r ffurflen gais Derbyn/Trosglwyddo presennol.

### **Eitem 9 Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP)**

Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Mark Lewis ac Owen Shepherd gan nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod ar fyr rybudd. MJ i ychwanegu hwn at agenda y cyfarfod nesaf o'r fforwm.

### **Eitem 10. Rhaglen Ail-leoli Ffoaduriaid o Syria**

Dywedodd y Cynghorydd David wrth y fforwm fod y teulu cyntaf o ffoaduriaid o Syria wedi'u cartrefu ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bod y plant wedi cael lle mewn ysgolion.

Yn ogystal, diweddarodd y Cynghorydd David y fforwm ynglŷn â'r plant o Syria, fyddai'n cael eu trin fel Plant sy'n Derbyn Gofal, a oedd i'w hadleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn wreiddiol. Gan fod prinder ar hyn o bryd o Ofalwyr Maeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, bydd Cyngor Dinas Abertawe yn cartrefu'r plant ar ran Pen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd AK wrth y fforwm y gallai, o bosib, nifer sylweddol o Nyrsys Ffilipino a'u teuluoedd adleoli i Ben-y-bont ar Ogwr. Mynegodd AK bryderon ynglŷn ag argaeledd llefydd derbyn yn yr ysgolion ffydd, ac os gallai'r Awdurdod Lleol gadarnhau'r wybodaeth hon, gallai helpu'r broses o gynllunio ymlaen llaw o ran llefydd derbyn mewn ysgolion. Y Cynghorydd David i gadarnhau gyda'r Bwrdd Iechyd a diweddarau'r fforwm yn y cyfarfod nesaf.

## **7. Gohebiaeth a dderbyniwyd wrth Lywodraeth Cymru ynglŷn â 'Threfniadau Derbyn Ysgolion ar gyfer 2016/17'**

Cyflwynodd MT y newidiadau a awgrymwyd wrth aelodau'r fforwm i lyfryn Awdurdodau Lleol 'Dechrau Ysgol' ar gyfer 2018-19 wrth Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, cytunodd aelodau'r Fforwm y newidiadau/ychwanegiadau canlynol:-

- Ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth teulu neu gyfeiriad at y manylion cyswllt cyffredinol yn y llyfryn 'Dechrau Ysgol'. MT i gwrdd â RD.
- Mae angen i'r llyfryn nodi lle bo gan blentyn 'Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig', mae'n rhaid i'r ysgol sydd wedi'i henwi ar y datganiad dderbyn y plentyn. MJ i gysylltu â Lorraine Silver, Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol am y wybodaeth angenrheidiol.
- Sicrhau bod mapiau o'r dalgylchoedd ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. DD i ail-ymweld ac i ddiweddarau'r fforwm yn y cyfarfod nesaf.

MJ i e-bostio gohebiaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru at AK fydd yn ei dosbarthu i holl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

## **8 Adolygiad o'r llyfryn 'Dechrau Ysgol' 2017-18**

Dywedodd DD wrth aelodau fod y llyfryn 'Dechrau Ysgol' 2017-2018 ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer dechrau rownd dderbyn statudol 2017-18.

## **9. Adolygu a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn**

Cyflwynodd DD Adroddiad Blynyddol 2015-16 i aelodau'r fforwm a dywedodd fod gwelliant parhaus yn yr amser y mae'n ei gymryd i dderbyn disgyblion i ysgolion drwy'r broses drosglwyddo. Cymeradwyodd yr aelodau Adroddiad Blynyddol Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr a'r dogfennau amgaeedig sy'n rhaid eu darparu i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2015/16. Dywedodd DD wrth aelodau hefyd fod gwefan bwrsasol ar gyfer y Fforwm Derbyn.

## **10 Ystyried Polisi Derbyn drafft yr Awdurdod Lleol 2018-19**

Ystyriodd y fforwm y Polisi Derbyn drafft ar gyfer 2018-19 ac roedd pawb yn gytûn y dylai'r paragraffau canlynol gael eu hepgor neu eu diwygio yn y polisi:

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno 'Diwrnod Cynnig Cenedlaethol Cymru Gyfan' ar gyfer llefydd ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19. Yn unol â hynny, bydd y broses o hysbysu rhieni/gwarcheidwaid o dderbyn/wrthod llefydd yn digwydd ar 16eg Ebrill 2018.
- Bydd plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu derbyn i'r ysgol a enwir ar eu datganiad ac ni fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf gordanysgrifio wrth bennu ceisiadau derbyn disgyblion eraill.
- Mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw y pellter mwyaf o'r ysgol arall a gynigir gan y Cyngor, wedi'i fesur yn ôl y llwybr byrraf a mwyaf ymarferol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r system feddalwedd GIS i fesur yr holl bellteroedd.
- Cytunwyd y byddai'r trefniant dros-dro ynglŷn â dalgylchoedd Ysgol Gynradd Maes yr Haul ac Ysgol Gynradd Trelales am gyfnod cychwynol o bum mlynedd, ac y byddai'n cael ei adolygu'n flynyddol wedi hynny. Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu'r sefyllfa ac wedi penderfynu y bydd y trefniant hwn yn parhau'n ddilys ar gyfer derbyn disgyblion yn 2018-19.
- Bydd ceisiadau hwyr a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau yn cael eu gwrthod os oes gormod o ddisgyblion yn yr ysgol onibai bod y teulu newydd symud i'r dalgylch a bod y cais yn cael ei dderbyn cyn i'r cynnig am lefydd gael ei wneud. Os yw'r cais yn cael ei dderbyn ar ôl i'r llefydd gael eu cynnig a bod tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i brofi bod y teulu wedi symud i ddalgylch yr ysgol, bydd y disgybl yn cael blaenoriaeth uwch ar y rhestr aros.
- Bydd ffurflenni cais meithrin ar gael ar 8fed Ionawr 2018 a rhaid eu dychwelyd i'r Awdurdod Lleol erbyn 23ain Mawrth 2018. Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu hysbysu o ganlyniad eu cais ar 21ain Mai 2018.

## **11 Ystyried dyddiadau cyffredin ar gyfer rownd dderbyn 2018/19**

Dywedodd MJ wrth y fforwm mai dyddiad y 'Cynnig Cenedlaethol Cymru Gyfan' ar gyfer disgyblion sy'n ymgeisio am le Derbyn neu'n symud o ysgol Fabanod i ysgol lau yn ystod y flwyddyn academaidd 2018-19 yw'r 16eg Ebrill 2018. Dywedodd MT fod elfen o ddryswch o fewn Awdurdodau Lleol ynglŷn â a yw'r hysbysiad i rieni yn cael ei anfon ar yr 16eg neu a ddylai rhieni gael gwybod ar y dyddiad hwnnw. Mae MT wedi trafod hyn yn y cyfarfod ADEW ac mae cadeirydd y panel derbyn am geisio cael eglurhad wrth Lywodraeth Cymru. MJ i ddsbarthu'r dyddiadau derbyn ar gyfer 2018-19 i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr.

## **12 Derbyn diweddariad ar y Gronfa Ddata Derbyniadau cyfredol**

Nododd y Cynghorydd David fod angen brys am y Gronfa Ddata Derbyniadau a system dderbyniadau ar-lein. Soniodd DD wrth aelodau fod trafodaethau yn mynd rhagddynt o fewn yr Awdurdod Lleol ynglŷn â'r posibilrwydd o gael mynediad i Capita 1. Dywedwyd wrth y fforwm hefyd fod prosiect Trawsnewid Digidol a system dderbyniadau ar-lein wedi eu trafod. Gofynnodd y Cynghorydd David am yr amserlen ar gyfer y galluogrwydd ar-lein. DD i ddiweddarau yng nghyfarfod nesaf y fforwm.

## **13 Trefnu dyddiad cyfarfod y Fforwm Derbyn ar gyfer Tymor y Gwanwyn**

MJ i ddsbarthu dyddiadau derbyn posibl i aelodau'r fforwm.

## **14 Unrhyw fater arall**

Dim materion eraill.